Hawdd ei Ddeall

# Eich canllaw i bleidleisio yn etholiad cyffredinol 2024

## Dyddiad yr etholiad: Dydd Iau 4 Gorffennaf

- Beth ydy etholiad cyffredinol
- Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig
- Pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn etholiad cyffredinol
- Cofrestru i bleidleisio
- Sut i bleidleisio
- Cerdyn adnabod pleidleisiwr
- Penderfynu pwy i bleidleisio drosto




Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

# Beth sydd yn y llyfryn hwn


**Beth ydy etholiad cyffredinol** ........ 3

**Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig** ........ 8

**Pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn etholiad cyffredinol** ........ 9

**Cofrestru i bleidleisio** ........ 10

**Sut i bleidleisio** ........ 12

**Cerdyn Adnabod pleidleisiwr** ........ 21

**Penderfynu pwy i bleidleisio drosto** ........ 25


Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi ysgrifennu'r ddogfen yma gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Rhif trwydded Photosymbols 403527247

# Beth ydy etholiad cyffredinol




Fe fydd etholiad cyffredinol yn y DU **ddydd Iau 4 Gorffennaf 2024**.



**Mewn etholiad cyffredinol rydych chi'n pleidleisio dros y bobl rydych chi eisiau i redeg y DU**.




Rydych chi'n pleidleisio dros 1 ymgeisydd. Mae ymgeisydd yn rhywun sydd eisiau bod yn **AS** lleol i chi.



Mae **AS** yn meddwl **Aelod Seneddol**. Mae **Aelodau Seneddol** yn gweithio yn Senedd y Deyrnas Unedig.




Mae’r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn rhan o blaid wleidyddol.



Mae plaid wleidyddol yn grŵp o bobl sy’n rhannu’r un syniadau am sut i redeg y Llywodraeth.

# Senedd y DU



Senedd y DU ydy'r holl ASau sydd wedi ennill yn eu hardaloedd lleol. Maen nhw'n gwneud yn siŵr bod Llywodraeth y DU yn meddwl am beth sy'n bwysig i chi.



Mae eich AS lleol yn eich cynrychioli chi a'ch cymuned yn Senedd y DU.



Mae Senedd y DU ar wahân i Lywodraeth y DU. Mae Senedd y DU yn edrych ar waith Llywodraeth y DU.




Mae canllawiau Hawdd ei Ddeall am Senedd y DU yma: https://learning.parliament.uk/en/resources/uk-parliament-easy-reads/

# Llywodraeth y DU




Mae’r blaid wleidyddol sy’n ennill etholiad cyffredinol yn rhedeg Llywodraeth y DU am hyd at 5 mlynedd. Tan yr etholiad cyffredinol nesaf.



Y Prif Weinidog fel arfer ydy arweinydd y blaid wleidyddol sydd wedi ennill yr etholiad cyffredinol.



Y Prif Weinidog sy’n arwain Llywodraeth y Deyrnas Unedig.



Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau am sut y dylid rhedeg y DU. Pethau fel yr heddlu, budd-daliadau, trethi a'r llysoedd.



Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau am rai pethau yn lle Llywodraeth y DU. Fel ysgolion ac iechyd yng Nghymru.

# Pam mae eich pleidlais chi yn bwysig



Mae pleidleisio mewn etholiad cyffredinol yn bwysig. Dyma'ch cyfle chi  i ddewis pwy rydych chi'n meddwl ydy'r bobl orau i wneud penderfyniadau ar ein rhan ni yn y DU.



Mae gan ASau syniadau gwahanol am y ffordd orau o redeg y DU.



Mae ASau yn Senedd y DU yn trafod materion pwysig, yn gwneud cyfreithiau, ac yn edrych ar waith Llywodraeth y DU.



Mae gennych chi lais ynglŷn â phwy sy'n siarad drosoch chi a beth sy'n bwysig i chi.

# Pwy sydd yn gallu pleidleisio mewn etholiad cyffredinol

**I bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol mae'n rhaid i chi:**




- Bod yn 18 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod yr etholiad.



- Bod yn Brydeinig, Gwyddelig neu o wledydd eraill sy'n cael pleidleisio yn y Deyrnas Unedig.



- Yn byw yn y Deyrnas Unedig.



- Cael **eich cofrestru i bleidleisio**.




Am yr holl reolau ar bwy sy'n cael pleidleisio, ewch i wefan Llywodraeth y DU. [www.gov.uk/elections-in-the-uk/general-election](https://www.gov.uk/elections-in-the-uk/general-election)

# Cofrestru i bleidleisio



Cyn i chi allu pleidleisio yn yr etholiad cyffredinol, **rhaid i chi gofrestru i bleidleisio**.




**Rydych chi'n gallu cofrestru i bleidleisio yma**: [www.gov.uk/register-to-vote](http://www.gov.uk/register-to-vote)




Mae'n rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn **dydd Mawrth 18 Mehefin 2024**.




Fel arfer mae'n cymryd tua 5 munud i gofrestru.




Mae'n ddefnyddiol cael eich rhif Yswiriant Gwladol yn barod. Mae eich rhif Yswirant Gwladol ar eich slip cyflog neu lythyrau gan y Llywodraeth.



Os ydych chi angen help, gofynnwch i rywun rydych chi yn ymddiried ynddyn nhw.



Os nad ydych chi yn siŵr a ydych chi wedi cofrestru i bleidleisio, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol: www.gov.uk/contact-electoral-registration-office i holi.



**Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru i bleidleisio**. Dim bob tro y bydd etholiad.



Os bydd eich enw, cyfeiriad, neu genedligrwydd yn newid, fe fydd angen i chi gofrestru eto.



Mae gan Lywodraeth y DU ganllaw Hawdd ei Ddeall i gofrestru i bleidleisio yma: www.gov.uk/government/publications/registering-to-vote-easy-read-guide

# Sut i bleidleisio

**Mae tair ffordd o bleidleisio:**



- Yn bersonol. Ewch i orsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad.




- Drwy'r post. Anfonwch eich pleidlais i mewn.



- Drwy ddirprwy. Rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw yn pleidleisio drosoch chi



Rydych chi'n gallu dewis y ffordd sy'n gweithio orau i chi.


# Pleidleisio yn bersonol




**Rydych chi'n gallu pleidleisio yn bersonol dim ond os oes gennych chi Gerdyn Adnabod.**




Mae'n rhaid i chi gofrestru i bleidleisio erbyn dydd **Mawrth 18 Mehefin 2024**.




Pan fyddwch chi wedi cofrestru i bleidleisio, fe fyddwch chi yn cael cerdyn pleidleisio yn y post. Fe fydd hyn yn cael ei anfon atoch chi tua 3 wythnos cyn yr etholiad.




Fe fydd y cerdyn pleidleisio yn dweud wrthych chi pa orsaf bleidleisio i fynd iddi i bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad, dydd Iau 4 Gorffennaf 2024.




Dim ond yn yr orsaf bleidleisio sydd yn cael ei enwi ar eich cerdyn pleidleisio rydych chi'n gallu pleidleisio. Gorsaf bleidleisio ydy'r lle rydych chi'n mynd i bleidleisio mewn etholiad.




Mae gorsafoedd pleidleisio fel arfer yn cael eu rhoi mewn lleoedd fel llyfrgelloedd, ysgolion a chanolfannau cymunedol.




Fe fydd gorsafoedd pleidleisio ar agor rhwng 7:00am a 10:00pm ar ddiwrnod yr etholiad, dydd Iau 4 Gorffennaf 2024.




Ewch i'ch gorsaf bleidleisio ar ddiwrnod yr etholiad rhwng yr amseroedd yma. Ewch â'ch Cerdyn Adnabod pleidleisiwr gyda chi.



Fe fydd staff yn yr orsaf bleidleisio i'ch helpu.



Pan fyddwch chi yn cyrraedd, fe fydd staff yn gofyn am eich enw, cyfeiriad ac am Gerdyn Adnabod pleidleiswyr. Fe fyddan nhw yn edrych i weld eich bod chi ar y gofrestr pleidleisio.




Os ydy popeth yn iawn, fe fyddan nhw yn rhoi papur pleidleisio i chi. Taflen o bapur sy'n rhestru ymgeiswyr lleol AS ydy hon.



Ewch i un o'r bythau pleidleisio. Mae hwn yn ardal breifat lle rydych chi'n gallu pleidleisio, felly mae eich dewis yn gyfrinachol.



Pleidleisiwch dros bwy rydych chi eisiau fel eich AS drwy roi croes yn y blwch wrth ymyl eu henw.



Rhowch eich papur pleidleisio yn y blwch pleidleisio mawr.



Os ydych chi angen help, gofynnwch i'r staff yn yr orsaf bleidleisio. Rydych chi'n gallu mynd â rhywun gyda chi i gael cefnogaeth.

# Pleidleisio drwy'r post




Os ydych chi eisiau pleidleisio drwy'r post, rhaid i chi wneud cais erbyn **dydd Mercher 19 Mehefin 2024**.

I wneud cais, mae angen i chi lenwi ffurflen. Rydych chi'n gallu:




- Llenwi'r ffurflen ar-lein yma: www.gov.uk/apply-postal-vote



- Lawrlwytho, argraffu a phostio'r ffurflen. Rydych chi'n gallu lawrlwytho'r ffurflen yma: www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote



- Gofyn i'ch S**wyddfa Cofrestru Etholiadol** lleol anfon y ffurflen i chi. Mae eu manylion yma: www.gov.uk/contact-electoral-registration-office




Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr bod gennych chi:

- Dyddiad geni
- Cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Rhif Yswiriant Gwladol



Os ydych chi angen help gyda'ch ffurflen, cysylltwch â'ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol. Rydych chi'n gallu dod o hyd i'ch un chi yma: [www.gov.uk/contact-electoral-registration-office](www.gov.uk/contact-electoral-registration-office)



Mae canllaw Hawdd ei Ddeall i wneud cais am bleidlais bost ar gael yma: [www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote-easy-read-guide](www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-postal-vote-easy-read-guide)



Rydych chi'n gallu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 328 0280 am help.

# Beth fydd yn digwydd nesaf




Tua 3 wythnos cyn yr etholiad, fe fyddwch chi yn cael eich pecyn pleidleisio drwy'r post. Cadwch ef yn ddiogel a pheidiwch â gadael i unrhyw un arall ei ddefnyddio.




Dilynwch y cyfarwyddiadau yn y pecyn pleidleisio.




Postiwch eich pleidlais bost wedi'i chwblhau yn ôl cyn gynted â phosibl. Os nad ydych chi yn gallu ei phostio eich hun, gofynnwch i rywun rydych chi yn ymddiried ynddyn nhw am help neu cysylltwch â'ch cyngor.




Rhaid i'ch pleidlais bost gyrraedd eich cyngor lleol erbyn **10pm ddydd Iau 4 Gorffennaf**. Anfonwch ef cyn gynted ag y gallwch i wneud yn siŵr ei fod yn cael ei gyfrif.

# Pleidleisio drwy ddirprwy



Mae hyn yn meddwl dewis rhywun i bleidleisio drosoch chi mewn gorsaf bleidleisio.



Fe ddylai'r person rydych chi'n ei ddewis fod yn rhywun rydych chi'n ymddiried ynddyn nhw. Nhw ydy eich dirprwy. Dywedwch wrthyn nhw pa ymgeisydd rydych chi eisiau pleidleisio drosto.





Mae'n rhaid i chi wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy erbyn **dydd Mercher 26 Mehefin 2024**.




Cyn gwneud cais, gwnewch yn siŵr bod gennych chi:

- Cyfeiriad lle rydych chi wedi cofrestru i bleidleisio
- Rhif Yswiriant Gwladol. Neu fath arall o ID, fel eich tystysgrif geni
- Manylion cyswllt eich dirprwy



Mae canllaw Hawdd ei Ddeall i wneud cais am bleidlais drwy ddirprwy ar gael yma: www.gov.uk/government/publications/apply-for-a-proxy-vote-easy-read-guide



Os ydych chi angen help, cysylltwch â’ch Swyddfa Cofrestru Etholiadol leol. Rydych chi’n gallu dod o hyd i’ch un chi yma: www.gov.uk/contact-electoral-registration-office



Rydych chi’n gallu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 328 0280 am help.



Fe fydd angen i’ch dirprwy gymryd ei Gerdyn Adnabod ffotograff ei hun pan fyddan nhw yn pleidleisio. Does dim rhaid iddyn nhw gymryd eich un chi.

# Cerdyn Adnabod pleidleisiwr





Fe fydd angen i chi ddangos cerdyn adnabod gyda ffotograff i bleidleisio mewn gorsaf bleidleisio yn yr etholiad cyffredinol.



Rhaid i'r llun ar eich Cerdyn Adnabod edrych fel chi.




Rydych chi'n gallu defnyddio eich Cerdyn Adnabod hyd yn oed os ydy e'n hen.




Os nad oes gennych chi Gerdyn Adnabod gyda Ffotograff, rydych chi'n gallu gwneud cais am **Dystysgrif Awdurdod Pleidleisiwr** i'w defnyddio yn lle hwnnw.


## Y mathau rydych chi'n gallu eu defnyddio ydy:





- Trwydded yrru cerdyn-ffotograff
- Pasport
- Cerdyn PASS - Cynllun Safonau Prawf Cenedlaethol o Oedran
- Bathodyn Glas




- Trwydded breswylio biometrig – cerdyn sy'n dangos bod person o wlad arall yn gallu byw yn y DU
- Cerdyn Adnabod Amddiffyn - ar gyfer pobl yn y lluoedd arfog




- Cerdyn adnabod cenedlaethol o'r Undeb Ewropeaidd, Norwy, Gwlad yr Iâ neu Liechtenstein
- Dogfen Etholwr Di-enw - papur arbennig sy'n gadael i rywun bleidleisio heb ddangos ei enw.
- Pas bws i bobl hŷn




- Pas bws person anabl
- Cerdyn Oyster 60+
- Pas Rhyddid - cerdyn sy'n caniatáu i bobl yn Llundain dros 66 oed deithio am ddim ar drafnidiaeth gyhoeddus




- Cerdyn Teithio Rhatach Cymru - cerdyn sy'n caniatáu i bobl dros 60 yng Nghymru deithio am ddim ar fysiau
- Cerdyn Teithio Rhatach Cymru i Bobl Anabl - cerdyn sy'n caniatáu i bobl anabl yng Nghymru deithio am ddim ar fysiau

# Tystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr




Rydych chi'n gallu gwneud cais am hyn os:

- does gennych chi ddim unrhyw Gerdyn Adnabod gyda Ffotograff sydd ar y rhestr
- neu dydy eich ffotograff ar eich Cerdyn Adnabod ddim yn edrych fel chi nawr
- neu bod eich enw ar eich Cerdyn Adnabod yn wahanol i'r enw rydych chi wedi ei ddefnyddio i gofrestru i bleidleisio.




Rydych chi'n gallu gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar-lein am ddim yma: [www.gov.uk/applya-for-photo-id-voter-authority-certificate](www.gov.uk/applya-for-photo-id-voter-authority-certificate)




Er mwyn gwneud cais fe fydd angen:

- llun digidol diweddar ohonoch chi'ch hun
- eich rhif Yswiriant Gwladol, neu fath arall i'ch adnabod fel tystysgrif geni.



Rydych chi hefyd yn gallu gwneud cais drwy'r post. Fe fydd angen i chi lawrlwytho, argraffu a llenwi'r ffurflen.



Mae canllaw Hawdd ei Ddeall ar gyfer gwneud cais am Dystysgrif Awdurdod Pleidleiswyr ar gael yma: [www.gov.uk/government/publications/voter-authority-certificate-easy-read-guide.cy](https://www.gov.uk/government/publications/voter-authority-certificate-easy-read-guide.cy)



Rydych chi'n gallu ffonio llinell gymorth y Comisiwn Etholiadol ar 0800 328 0280 am help.

# Penderfynu pwy i bleidleisio drosto



Eich dewis chi ydy hyn. Mae'n gallu bod yn anodd penderfynu.



Mae'n gallu bod o help i siarad â theulu a ffrindiau am beth sy'n bwysig i chi.




I ddysgu am yr ymgeiswyr yn eich ardal chi, ewch i **Pwy allai bleidleisio iddyn nhw**: www.whocanivotefor.co.uk



Rydych chi'n gallu darllen am beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Rydych chi'n gallu cysylltu â nhw i ofyn cwestiynau.



Mae'r ymgeiswyr yn gallu curo ar eich drws neu fod yn eich ardal chi. Rydych chi'n gallu gofyn cwestiynau iddyn nhw i ddysgu am beth maen nhw'n feddwl.




Mae'r rhan fwyaf o ymgeiswyr yn rhan o blaid wleidyddol.



Y prif bleidiau gwleidyddol yng Nghymru ydy:

- Y Blaid Lafur
- Y Blaid Geidwadol
- Plaid Cymru
- Democratiaid Rhyddfrydol



Rydych chi'n gallu darllen **maniffesto** plaid wleidyddol  i ddeall eu barn a'u syniadau. Mae **maniffesto** yn dweud wrthych chi beth maen nhw'n addo ei wneud os ydyn nhw'n ennill yr etholiad.



Mae rhai ymgeiswyr yn annibynnol. Mae hyn yn meddwl nad ydyn nhw'n rhan o blaid wleidyddol. Rydych chi'n gallu dysgu amdanyn nhw ar wefan www.whocanivotefor.co.uk.



Rydych chi'n gallu cymryd cwis ar-lein yn www.voteforpolicies.org.uk i weld pa blaid wleidyddol sy'n cytuno gyda'ch syniadau a'ch safbwyntiau orau.



Fe fydd y cwis yn barod pan fydd maniffestos yr etholiad yn dod allan.




Fe fydd dadleuon ar y teledu hefyd. Dyma lle mae ymgeiswyr yn siarad am eu syniadau ac yn ateb cwestiynau am faterion pwysig.



Am fwy o wybodaeth am bleidleisio a gwleidyddiaeth, gan gynnwys canllawiau Hawdd ei Ddeall, ewch i wefan My Vote My Voice: [www.myvotemyvoice.org.uk](http://www.myvotemyvoice.org.uk)



Mae My Vote My Voice yn brosiect sy'n cefnogi pobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig i bleidleisio.




Pwy bynnag rydych chi'n dewis pleidleisio drostyn nhw, mae eich pleidlais chi yn bwysig. **Gwnewch yn siŵr bod eich llais yn cael ei glywed yn etholiad cyffredinol 2024.**